

## Ar Gyrrion y Dre – Rhys Iorwerth

A dyna lle'r oedd hi, yn anfon rhyw decst  
rhwng drysau McDonalds a maes parcio Next  
pan sylwodd hi'n sydyn na chofiai hi ble  
adawodd hi'i char. Dim ond cyrrion y dre

a welai o'i hamgylch, warysau mawr hir  
a'u bilbordiau unffurf yn codi o'r tir.  
Mewn rhes: TK Maxx, M&S, KFC,  
A Morrisons sgwâr; Dunelm Mill, JJB;

siop fathrwms, lle soffas, cwt pizza'n ddi-feth,  
i gyd yn ei drysu, i gyd yr un peth  
ag oedden nhw ym mhobman o'r mynydd i'r môr,  
o Tesco's i Starbucks, y cyfan mewn côr

yn chwerthin mewn cylch am na chofiai hi ble  
roedd hi wedi parcio ar gyrrion y dre.  
Ac yna arswydodd wrth ddirnad ei stâd:  
ni wyddai hi bellach ble'r oedd hi'n y wlad.

O Boots draw i Asda, ymuno'n un tsiaen  
wnâi'r siopau o'i chwmpas; creu cadwyn o'i blaen  
a chymaint ei dryswch, ei dychryn a'i strach,  
dechreuodd hi grïo a chrynu'r beth fach.

A oedd hi ym Mangor, Llandudno neu'n Rhyl?  
Yng Nghaer neu yn Lerpwl? Manceinion? At dil  
yn un o'r unedau i holi'r aeth hi,  
ond fedrai neb ddeall gwallgofrwydd ei chri.

Gafaelodd yn sydyn drachefn yn ei ffôn.  
Y batri ddiffygiodd. Hyd heddiw mae sôn  
mai dyna lle mae hi rhwng Staples a Spar  
hefo coffi o Costa yn chwilio am ei char.

Rhys Iorwerth, *Un Stribedyn Bach* (Gwasg Carreg Gwalch, 2014)

## Google Mars – Hywel Griffiths

Pellter? Dim ond clic llygoden  
ac mae planed yn dy law,  
tynna'r tir coch yn nes atat  
a chrwydra yma a thraw.

Clic, a llusga'r chwyddwydr  
dros dirwedd sy'n llenwi'r llun,  
dyffrynnoedd dwfn a llydan  
a'r llosgfynydd mwyaf un.

Clic. Dychmyga dy fod di  
yn crwydro mewn crater cras,  
neu'n llithro dros y pegynau  
rhwyllyd yn teimo'r ias.

Clic. Dilyna'r afonydd  
sy'n sych ers oesoedd hir  
a'u canghennau distaw'n estyn  
eu brigau fel bysedd drwy'r tir.

Clic. Teimla'r stormydd llychlyd  
sy'n symud y tywod mân.

Clic. Mae Mawrth y dychymyg  
yn nes nag yr oedd o'r bla'n.

Hywel Griffiths, *Llif Coch Awst* (Cyhoeddiadau Barddas, 2017)

## Aros a Mynd – Ceiriog

Aros mae'r mynyddau mawr,  
Rhuo drostynt mae y gwynt;  
Clywir eto gyda'r wawr  
Gân bugeiliaid megis cynt.  
Eto tyf y llygad dydd  
Ogylch traed y graig a'r bryn,  
Ond bugeiliaid newydd sydd  
Ar yr hen fynyddoedd hyn.

Ar arferion Cymru gynt  
Newid ddaeth o rod i rod;  
Mae cenhedlaeth wedi mynd  
A chenhedlaeth wedi dod.  
Wedi oes dymhestlog hir  
Alun Mabon mwy nid yw,  
Ond mae'r heniaith yn y tir  
A'r alawon hen yn fyw.

Aled Lewis Evans (gol) *Cerddi Clwyd* (Gomer, 2004)

## Cysgod – Sian Owen

Beth ydyw ar y pared  
sy'n edliw wrtha' i'n hy'  
am wendid, am ryw broblem  
sy'n bygwth muriau'r tŷ?

Fin nos, yng ngwyll blinderau;  
ben bore, yno mae –  
rhwy arlliw yn y gornel  
â siâp annelwig gwae.

Ond pam rwy'n mynnu sylwi  
ar rimyn llwyd fel hyn?  
Brycheuyn bychan ydyw  
a'r wal yn gynfas gwyn.

Annes Glyn (gol.), *Darn o'r Haul: Cerddi Siân Owen* (Cyhoeddiadau Barddas, 2015)

## Fesul Un – Llŷr Gwyn Lewis

Fesul un, i gymuno,  
er y twll sy'n pydru'r to,  
daw'r addolwyr drwy ddilyw,  
dod o hyd i dŷ eu Duw'n  
denau iawn, a dwyn yn ôl  
oes o bethau Sabothol.  
Rhoi gweddi, er y gwyddan  
nhw'r gwir; dal i godi'r gân  
am dyrfâu y dyddiau da,  
am wynfyd eu cymanfa,  
a'u hemynau nhw'n mynnu  
nad yw Duw 'di mynd o'i dŷ.

*Pigion y Talwrn*[13], (Cyhoeddiadau Barddas, 2016)